WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Paul Matthews
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 24 Medi 2013 |
| **Ein cyfeirnod** | 466A2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **13** |

Annwyl Paul

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Sir Fynwy (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- Fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant.
- Fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol sydd wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ynghylch sut y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol; a
  - chrynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf.
- Fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion.
- Diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy marn yn ystod y flwyddyn ac yn darparu llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## Mae'r Cyngor wedi peidio â chyflawni rhai o'i ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur oherwydd ni chyhoeddodd ei Gynllun Gwella 2013-2016 yn unol ag amserlen resymol a dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd y canfu fy ngwaith archwilio ac asesu fod amcanion gwella'r Cyngor a'i gynllun gwella blynyddol, 'Improvement Plan Stage 1 Forward Looking Plan 2013-2016', (y Cynllun), yn bodloni'r rhan fwyaf o ofynion y Mesur ar gyfer 2013-14. Fodd bynnag, ni chyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun ar gyfer 2013-2016 hyd nes 10 Gorffennaf 2013, ac nid yw hynny'n unol ag amserlen resymol[1]. Er mwyn bodloni ei rwymedigaethau statudol o dan y Mesur mae angen i'r Cyngor fod â threfniadau ar waith sy'n ei alluogi i lunio ei amcanion gwella, craffu arnynt, eu cymeradwyo a'u cyhoeddi yn fwy prydlon. Roedd y Cyngor wedi bwriadu cyhoeddi ei adroddiad erbyn diwedd mis Mehefin 2013 ond roedd angen iddo wneud rhai newidiadau annisgwyl yn dilyn sylwadau oedd yn codi o gyfarfod o'r Cyngor ar 27 Mehefin, ac achosodd hyn oedi i'w gyhoeddi. Mae angen i'r Cyngor ganiatáu amser priodol yn ei gynlluniau i ganiatáu i aelodau gyflwyno sylwadau llawn ar y Cynllun terfynol arfaethedig ac ymateb i unrhyw ddiwygiadau cytunedig sy'n codi trwy'r broses ddemocrataidd.

Nid yw'r Cynllun yn hygyrch iawn i ddinasyddion, mae ar gael fel copi caled ac mae hwn yn dweud ei fod hefyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor ond cawsom drafferth i ddod o hyd iddo ar wefan y Cyngor ac nid oedd fersiwn Gymraeg ar gael. Mae angen i'r Cyngor wneud y Cynllun yn fwy hygyrch ar ei wefan ac ar gael yn rhwyddach i grwpiau buddiant penodol.

Ar gyfer 2013-14, mae'r Cyngor wedi diwygio ei amcanion gwella ac wedi uno dwy thema amcan gwella o'r blynyddoedd blaenorol. Ar gyfer y pum amcan gwella, mae'r Cynllun yn esbonio pam a sut y cawsant eu dewis a sut y maent yn adlewyrchu blaenoriaethau allweddol y Cyngor. Mae'r amcanion gwella'n canolbwyntio'n benodol ar feysydd lle mae'r Cyngor yn ceisio gwella ansawdd bywyd i bobl leol.

Mae'r sail dros ddewis pob un o'r amcanion gwella'n cael ei nodi'n glir ac yn cynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, barn partneriaid strategol, ymgysylltu â rhanddeiliaid a materion cymunedol. Mae pob amcan gwella hefyd yn cynnwys adran o'r enw 'pam yr ydym wedi dewis yr amcan hwn' sy'n nodi'n glir y sail resymegol dros yr amcan gwella.

---

[1] Os nad oes amgylchiadau eithriadol, byddem yn ei hystyried yn rhesymol i ddisgwyl i gyngor wneud trefniadau i lunio ei amcanion gwella, craffu arnynt, eu cymeradwyo a'u cyhoeddi cyn diwedd chwarter cyntaf y flwyddyn y maent yn ymwneud â hi. Mae Llythyr yr Archwilydd Cyffredinol at Brif Weithredwyr awdurdodau lleol dyddiedig 1 Chwefror 2011 yn rhoi rhagor o wybodaeth.

Ar gyfer pob un o bum amcan gwella'r Cyngor, mae'r Cynllun yn cynnwys crynodeb o'r gweithgareddau y bwriedir eu cyflawni yn 2013-14 ac yn nodi'r adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo â'r gwaith o'u cyflawni. Mae'r camau gweithredu a phrosiectau penodol ar gyfer pob amcan gwella'n cael eu rheoli trwy gynlluniau gwella gwasanaethau'r Cyngor. Mae un adran, 'sut y byddwn yn mesur effaith ein gwaith', yn nodi'r dystiolaeth y bydd y Cyngor yn ei defnyddio i farnu ei lwyddiant yn nhermau cyflawni camau gweithredu i gynorthwyo â gwella, a hefyd ei gynnydd wrth gyflawni canlyniadau'r amcanion gwella. Mae'r Cyngor wedi nodi'r rhain gan ddefnyddio fframwaith Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau[2] sy'n mesur:

- Faint?
- Pa mor dda?
- A yw unrhyw un yn well ei fyd?

Ar gyfer rhai amcanion gwella, megis yr amcan gwella sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad addysgol, mae'r dystiolaeth i farnu effaith a gwelliant yn glir iawn gyda chamau gweithredu a mesurau'n canolbwyntio'n briodol ar bresenoldeb a chyrhaeddiad. O ran amcanion gwella eraill, fodd bynnag, nid yw'r mesurau i ganfod a yw unrhyw un yn well ei fyd mor drylwyr. Er enghraifft, yn amcan gwella pump, 'rydym eisiau aros yn sefydliad effeithlon ac effeithiol sy'n cyflawni ein blaenoriaethau ar y cyd gyda phartneriaid allweddol, rhanddeiliaid a dinasyddion ymysg cyfyngiadau ariannol parhaus sylweddol', mae'r Cyngor yn nodi 'darpariaeth TGCh gost effeithiol a chryfhau gwaith rheoli absenoldeb' fel meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt ar gyfer gwella.

Mae'r Cyngor ei hun yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu ymhellach y ffordd mae'n mesur a gwerthuso canlyniad ei waith. O'r mesuryddion a nodir yn yr adran "Sut y byddwn yn mesur ein gwaith", nid yw'n glir sut y caiff amcan gwella pump ei gyflawni, na sut y mae'r mesurau llwyddiant yn cysylltu â'r gweithgareddau a'r canlyniad a fwriedir. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw fesurau sy'n ymwneud ag absenoldeb salwch er y deallwn fod gwybodaeth llinell sylfaen yn cael ei chanfod ac nid yw'r mesur, 'y nifer o weithiau y ceir gwybodaeth o'r wefan', yn fesur cyflawn na thrylwyr.

Mae angen i fynediad i'r wefan fel mesur perfformiad gael ei ystyried yng nghyd-destun newid y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth ac yn cyflenwi gwasanaethau. Nid yw'n bosibl canfod a yw'r wefan yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd heb fesurau eraill i gymharu â hwy megis nifer y galwadau ffôn a chysylltiadau wyneb yn wyneb. Hefyd, nid yw'r Cyngor wedi defnyddio amrywiaeth o fesurau i werthuso llwyddiant y wefan; yn hytrach mae wedi canolbwyntio ar y nifer o weithiau y cyrchir ei wefan. Byddai gwybodaeth megis pam y cyrchwyd y wefan, boddhad cwsmeriaid gyda'r wefan, y nifer o ail-ymweliadau â'r wefan, a nifer y trafodion aflwyddiannus ar y wefan yn rhoi asesiad

[2] Mae Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau yn canolbwyntio ar farnu effaith a chanlyniadau a'r gwahaniaeth y gall gwasanaethau ei wneud i ansawdd bywyd pobl.

mwy trylwyr o'r perfformiad. Er mwyn canfod a fyddai unrhyw un yn well ei fyd o ganlyniad i'r amcan gwella, mae'r Cyngor wedi nodi 'lefel dylanwad defnydd Cyngor Sir Fynwy o gyfryngau cymdeithasu' fel un o fesurau llwyddiant, ond yn cydnabod nad yw'r mesur hwn yn cynorthwyo ag asesiad trylwyr a chyflawn o lwyddiant ar gyfer yr amcan gwella hwn.

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn nodi gofynion penodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd yn ofynnol iddynt ddatblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb a chynllun cydraddoldeb strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Mae cryn dipyn o aliniad rhwng y gofyniad i gynhyrchu Amcanion Cydraddoldeb a'r elfen 'Tegwch' y mae'n rhaid i awdurdodau roi ystyriaeth iddi wrth bennu amcanion gwella o dan y Mesur. Gwnaeth y Cyngor asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob un o'i bum amcan gwella a rhoddir gwybodaeth fer ynghylch grwpiau gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn y Cynllun. Er enghraifft, mae amcanion gwella'n canolbwyntio ar bobl ifanc yn cyflawni eu potensial yn y system addysg, ac amddiffyn pobl ifanc a'u teuluoedd, pobl hŷn a phobl ag anableddau. Bydd y gweithgareddau a geir yn y Cynllun yn destun asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb cyn iddynt gael eu rhoi ar waith.

## Ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig iddo, nid yw'n sicr bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

### Mae dull y Cyngor "Your County Your Way" o gyflenwi gwasanaethau gwell a mwy effeithlon yn cael ei wreiddio ledled y Cyngor

Mae dull y Cyngor o sicrhau gwelliant parhaus wedi'i seilio ar bum dull cydgysylltiedig sydd wedi'u bwriadu i gyflenwi gwasanaethau gwell a mwy effeithlon i ddinasyddion Sir Fynwy. Dyma'r pum dull:

- defnyddio arloesedd a chreadigrwydd i ddarparu ffyrdd gwell a mwy cost effeithlon o gyflenwi gwasanaethau;
- gweithio ystwyth i ganiatáu ymatebion mwy hyblyg, heini a chost effeithiol i ffyrdd o weithio;
- chwilio am arferion rhagorol a defnyddio'r gwersi i ailgynllunio a gweddnewid gwasanaethau;
- defnyddio ymgysylltu â chwsmeriaid a dinasyddion fel y sylfaen ar gyfer newid gan sicrhau bod beth bynnag a wnawn wedi'i seilio ar yr hyn y dywed dinasyddion wrthym ei fod yn bwysig iddynt hwy; a

- defnyddio meddwl a gwneud trwy systemau i gyflenwi gwasanaethau gwell a mwy cost effeithiol wedi'u seilio ar yr hyn sy'n bwysig i gwsmeriaid.

Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym fod y dulliau hyn eisoes wedi sicrhau gwelliannau sylweddol i wasanaethau sydd wedi arwain at wasanaethau gwell i ddinasyddion ac arbedion costau i'r sefydliad. Byddwn yn adolygu ac yn adrodd ar hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn fel rhan o'n hasesiad o berfformiad y Cyngor.

## Cymysg fu'r cynnydd wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn asesiadau blaenorol

Rwyf wedi gwneud nifer o gynigion ar gyfer gwella o'r blaen a hefyd wedi nodi rhai meysydd lle byddem yn gwneud rhagor o waith. Nid yw'r Cyngor wedi derbyn yr holl feysydd ar gyfer gwella a nodasom yn ein gwaith diweddar, megis datblygu gwybodaeth am gostau uned a datblygu safonau gwasanaeth. Er hynny, mae'r Cyngor yn defnyddio costau uned ac yn ystyried safonau gwasanaeth fel rhan o'i ddull meddwl trwy systemau o adolygu a gwella gwasanaethau.

Cymysg yw ei gynnydd wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella y mae wedi'u derbyn. Mae'r Cyngor yn dweud bod cynnydd wedi cael ei wneud mewn rhai meysydd, er enghraifft: ei waith ar sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg; cryfhau ei broses asesu'r effaith ar gydraddoldeb; diweddaru a rhannu ei gynllun ariannol tymor canolig; datblygu cerdyn sgorio'r Gwasanaethau Plant; a'r gwelliannau i hygyrchedd a chyhoeddusrwydd asesiad perfformiad y Cyngor. Mae gwaith mewn meysydd eraill, megis rhoi system rheoli perfformiad Ffynnon ar waith i gefnogi fframwaith rheoli perfformiad a rhaglenni'r Cyngor, yn parhau.

Byddwn yn dewis sampl o gynigion ar gyfer gwella er mwyn gwerthuso asesiad y Cyngor o'r cynnydd a byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Lle bo camau gweithredu'n parhau, byddwn yn dal i fonitro ac adrodd ar y cynnydd mae'r Cyngor yn ei wneud wrth eu rhoi ar waith. Rhoddir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau yn rhai o'r meysydd hyn ar wahân mewn diweddariadau interim i'r Cyngor lle bo'n briodol.

### Mae'r Cyngor yn cymryd camau i gryfhau ei drefniadau i fonitro ac adrodd ar gynnydd o ran cynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella ond nid yw'r system yn effeithiol eto, ac nid yw wedi'i gwreiddio eto yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor

Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi diwygio'r trefniadau i fonitro ac adrodd ar gynnydd o ran ein canfyddiadau a'n cynigion ar gyfer gwella. Bellach Uwch Dîm Arwain y Cyngor[3] sy'n gyfrifol am ddarparu goruchwyliaeth a sicrhau y cymerir camau i fynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella. Mae'r trefniadau hyn yn dal i gael eu gwreiddio ac mae angen rhagor o waith i gryfhau'r prosesau hyn. Er enghraifft, nid yw'r adroddiadau newydd mae'r Cyngor wedi'u datblygu i dracio cynnydd yn nodi llinellau atebolrwydd clir nac amserlenni ar gyfer cyflawni camau gweithredu a gwelliannau. Hefyd nid ydynt yn rhoi gwerthusiad o gynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl asesu a yw cynnydd yn cael ei wneud na chanfod a yw ar y trywydd iawn. Heb linellau atebolrwydd clir, nid yw'n bosibl chwaith i aelodau ac uwch swyddogion herio cynnydd yn effeithiol a dal y rheiny sy'n gyfrifol yn atebol.

Oherwydd bod y trefniadau hyn yn dal i ddatblygu mae ein gwaith yn parhau. Rydym yn bwriadu adolygu trefniadau'r Cyngor a'i asesiad o'r cynnydd a byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau'n ddiweddarach yn y flwyddyn.

### Mae aelodau'r Cabinet yn cydnabod bod angen iddynt herio a dal swyddogion yn fwy atebol am gynnydd a pherfformiad ac maent yn cymryd camau i egluro rolau aelodau

Fel rhan o'n gwaith i asesu trefniadau corfforaethol y Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus, cynaliasom gyfweliadau gydag aelodau Cabinet a grŵp ffocws gydag uwch swyddogion. Rydym yn bwriadu cyfarfod ag aelodau craffu yn yr hydref.

Mae aelodau Cabinet ac uwch swyddogion y Cyngor yn cydweithio'n agos fel un 'Tîm Arwain Strategol', a gaiff ei gyd-arwain gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr. Mae'r cyfarfod yn darparu'r fforwm i aelodau'r Cabinet drafod gydag uwch swyddogion faterion o bwys mawr y mae angen mynd i'r afael â hwy. Mae'r perthnasoedd yn adeiladol ac wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a hyder mawr gan yr aelodau yn y swyddogion. Mae'r perthnasoedd wedi datblygu trwy drefniadau cydweithio agos, gydag aelodau'n aml yn mynychu cyfarfodydd swyddogion ac yn cymryd rhan mewn cynlluniau a materion sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau.

---

[3] Mae Uwch Dîm Arwain y Cyngor yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddogion sy'n gyfrifol am wasanaethau'r Cyngor.

Mae aelodau'r Cabinet wedi myfyrio ynghylch y trefniadau hyn yn dilyn yr arolygiad diweddar gan Estyn mewn diwrnod cwrdd i ffwrdd gyda hwyluso allanol a drefnwyd gan yr Arweinydd, gyda'r nod o helpu i gryfhau her, rolau a pherthnasoedd. Cydnabu aelodau'r Cabinet, er bod gan y perthnasoedd a'r ffyrdd o weithio presennol gryfderau yn nhermau syniadau a gweledigaeth a rennir, bod ganddynt hefyd rai gwendidau allweddol yn nhermau gwanhau gallu aelodau i herio swyddogion yn effeithiol a'u dal yn atebol mewn perthynas â chynnydd a pherfformiad. Ar hyn o bryd nid oes gan aelodau'r Cabinet ddisgrifiadau rôl sy'n egluro beth yw eu rôl a beth a ddisgwylir iddynt ei wneud ac roedd yr aelodau a holasom yn teimlo bod rhai aelodau o'r Cabinet yn aneglur ynghylch eu rôl. Mae'r Arweinydd yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn ac erbyn hyn mae disgrifiadau rôl wedi cael eu drafftio i'w trafod yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Medi 2013. Mae angen i aelodau'r Cabinet fod yn glir ynghylch eu rôl ac mae angen iddynt sicrhau bod ganddynt y wybodaeth y maent ei hangen i herio swyddogion yn effeithiol a'u dal yn atebol.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw brosesau arfarnu ffurfiol ar waith ar gyfer aelodau'r Cabinet, na rhwng yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr. Mae aelodau'r Cabinet yn cydnabod yr angen i gael dull mwy ffurfiol o ddweud wrth swyddogion am eu perfformiad.

Gan fod y Cyngor yn ymwneud â llawer o fentrau, teimlai aelodau fod angen ymagwedd fwy ffurfiol at gynllunio strategol hefyd yn y dyfodol i egluro blaenoriaethau'r Cyngor a darparu mwy o fanylion am amserlenni a'r canlyniadau/buddion i'w cyflawni. Byddai ymagwedd o'r fath yn galluogi aelodau i fonitro a gwerthuso cynnydd a pherfformiad yn fwy effeithiol a dal y rheiny sy'n gyfrifol yn atebol.

Er y caiff adroddiad ar berfformiad y Cyngor ei gyflwyno i'r Cabinet ddwywaith y flwyddyn er gwybodaeth, mae'r Cabinet wedi canolbwyntio'n bennaf ar y goblygiadau ariannol i wasanaethau. Mae'r Cabinet yn cydnabod bod angen iddo gryfhau ei waith herio a gwerthuso perfformiad gwasanaethau a'r Cyngor yn gyfan.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adolygu ei fframwaith perfformiad. Mae'n datblygu system TG newydd ar gyfer rheoli perfformiad corfforaethol, gan ddefnyddio Ffynnon[4], gyda'r nod o ddarparu ymagwedd fwy cydgysylltiedig at ei waith rheoli perfformiad ar draws gwasanaethau. Yn y dyfodol bydd gwybodaeth am berfformiad, cyllid, risgiau, cynigion ar gyfer gwella a chamau sy'n deillio o waith rheoleiddwyr yn cael ei llwytho ar Ffynnon. Mae angen i aelodau ymgysylltu â'r adolygiad hwn er mwyn sicrhau bod eu hanghenion hwy am wybodaeth yn cael eu hadlewyrchu a'u diwallu.

[4] Meddalwedd a gaffaelir yn genedlaethol i ddiwallu anghenion awdurdodau lleol o ran rheoli perfformiad yw Ffynnon.

Mae’r Cyngor hefyd yn datblygu fframwaith hunanwerthuso wedi’i seilio ar ddeg cwestiwn gyda thystiolaeth ategol y darparodd adroddiadau blynyddol y tri chyfarwyddwr wybodaeth ar ei chyfer. Bydd y fframwaith hefyd yn cynnwys adolygiadau o lywodraethu, a chapasiti gwleidyddol a chorfforaethol. Ar ôl iddi gael ei chasglu, mae’r wybodaeth i gael ei hadolygu gan dîm adolygu cymheiriaid allanol a bydd hefyd yn destun adolygiad annibynnol. Ni fydd y fframwaith yn cael ei roi ar waith yn llawn mewn pryd i ddarparu gwybodaeth ar gyfer adroddiad asesu perfformiad y Cyngor ar gyfer 2012-13 ar ddiwedd mis Hydref 2013, ond bydd y trefniadau’n cael eu treialu a’u mireinio gyda’r nod o gael eu rhoi ar waith yn llawn i ddarparu gwybodaeth ar gyfer ei adroddiad asesu perfformiad ar gyfer 2013-14 sydd i gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref 2014. Byddwn yn asesu pa mor drylwyr ac effeithiol yw’r fframwaith newydd fel rhan o’n gwaith.

### Mae Bwrdd Adfer Addysg Gweinidogol wedi cael ei benodi yn dilyn barn Estyn bod gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol

Arolygodd Estyn wasanaethau addysg yr awdurdod lleol i blant a phobl ifanc ym mis Rhagfyr 2012. Barnodd Estyn fod ansawdd y gwasanaethau presennol yn anfoddhaol. Barnodd Estyn hefyd fod rhagolygon Sir Fynwy ar gyfer gwella yn anfoddhaol. Mae’r Cyngor yn destun mesurau arbennig ac mae’r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi penodi bwrdd adfer addysg. Mae’r Cyngor wedi cyflwyno cynllun gweithredu i Estyn yn nodi sut y mae’n mynd i’r afael ag argymhellion arolygiad Rhagfyr 2012 ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda’r bwrdd adfer.

### Mae’r Cyngor yn dda am reoli ei gyllideb yn ei chyfanrwydd ac er ei fod yn parhau i gyflenwi gwasanaethau hanfodol gyda llai o arian, nid yw targedau arbedion cymeradwy wedi cael eu cyrraedd bob amser ac mae rhai gwasanaethau lleol yn dod yn fwyfwy anghynaliadwy

Yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2010, cyflawnodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig Adolygiad o Wariant, y rhoddwyd y wedd derfynol arno ym mis Hydref 2010. Cafodd cynghorau Cymru £155 miliwn (3.8 y cant) o ostyngiad mewn termau real i’w cyllid refeniw oddi wrth Lywodraeth Cymru yn 2011-12. Mae’r ffigurau dangosol yn dangos y bydd y cyllid refeniw oddi wrth Lywodraeth Cymru oddeutu £283 miliwn (7 y cant) yn is mewn termau real yn 2013-14 nag yn 2010-11. Mae Llywodraeth Cymru wedi’i herio â gweithredu’r toriadau hyn i gyllid ar gyfer Cymru, sy’n golygu y bydd yn rhaid i bob cyngor yng Nghymru wneud penderfyniadau anodd ynghylch sut y byddant yn ymdrin â’r toriadau i’w cyllid, sy’n cael effaith uniongyrchol ar wasanaethau lleol a phobl leol.

Felly mae cynghorau o dan bwysau cynyddol i leihau costau ond mae dyletswydd arnynt o hyd i fod â threfniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae graddfa'r toriadau i gostau y mae ei hangen yn golygu y bydd yn rhaid i gynghorau edrych y tu hwnt i arbedion byrdymor uniongyrchol a meddwl mewn ffordd fwy radical am ffyrdd o dynnu costau o'r busnes a sut i gynnal hyn yn y tymor hirach ac ar yr un pryd dal i wella gwasanaethau. I gwtogi ar wariant yn effeithiol mae angen i adrannau gymryd trosolwg strategol er mwyn osgoi gwaethygu ansawdd gwasanaethau mewn meysydd cyflenwi blaenoriaethol. Dylai cynghorau flaenoriaethu'n glir pa wasanaethau sydd o'r pwys mwyaf, ar sail asesiad cywir a realistig o gostau, buddion a risgiau'r opsiynau.

Yn ystod 2012-13, adolygasom ba mor dda roedd y Cyngor yn ymdopi gyda llai o adnoddau. Daethom i'r casgliad bod y Cyngor yn dda am reoli ei gyllideb yn ei chyfanrwydd ac er ei fod yn parhau i gyflenwi gwasanaethau hanfodol gyda llai o arian, nid oedd targedau arbedion cymeradwy yn cael eu cyrraedd bob amser ac roedd rhai gwasanaethau lleol yn dod yn fwyfwy anghynaliadwy.

Daethom i'r casgliad hwn oherwydd canfuom fod gan y Cyngor drefniadau ar waith i sicrhau arbedion ond, er bod y Cyngor yn gorfforaethol yn gallu dangos ei fod wedi sicrhau rhai arbedion o ganlyniad i'w benderfyniadau ariannol, nad oedd y lefel hon o wybodaeth ar gael yn rhwydd mewn gwasanaethau. Roedd gan y Cyngor brosesau da ar waith i ganfod a chytuno ar arbedion ar gyfer gwasanaethau ond ni wyddai a oedd yr arbedion cymeradwy hyn yn cael eu sicrhau. Canfuom hefyd fod gwasanaethau'n canfod opsiynau ar gyfer arbedion yn unol â disgwyliadau'r cynllun ariannol tymor canolig ond nad yw goblygiadau sicrhau arbedion ar wasanaethau'n cael eu hegluro neu eu herio'n effeithiol bob amser.

Ystyriasom hefyd sut y mae'r Cyngor yn lleihau gwariant ac yn sicrhau arbedion mewn gwasanaethau penodol. Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar dri maes gwasanaeth – Iechyd yr Amgylchedd, Tai a Rheoli Gwastraff – er mwyn deall pa mor dda y mae'r gwasanaethau unigol hyn yn cynllunio a sicrhau arbedion. Canfuom fod gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd yn ymdopi â chyllidebau llai a bod y perfformiad yn gwella gan fwyaf ond nad oedd yn glir a oedd y gwasanaeth yn gynaliadwy yn y tymor canolig a'r tymor hir. O ran gwasanaethau Tai, cymysg oedd y perfformiad o hyd a chyfyngedig yw'r capasiti yn y gwasanaeth, ac mae'r galw cynyddol maent yn ei wynebu'n awgrymu bod yna risgiau cynyddol ym maes tai yn Sir Fynwy. Yn olaf, roedd gwasanaethau Gwastraff yn ymdopi'n dda gyda llai o adnoddau ac mae'r perfformiad yn gwella gan fwyaf er y gallai fod yn anodd cynnal hyn.

Ar adeg pan fo adnoddau'n prinhau a phwysau ar gyllidebau'n cynyddu, mae'n bwysig i gynghorau ymgysylltu â phobl leol ynghylch gwasanaethau'r Cyngor a deall sut mae newidiadau i'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau, o ganlyniad i benderfyniadau cyllidebol, yn effeithio ar y rheiny sy'n eu cael. Canfuom fod preswylwyr Sir Fynwy'n defnyddio amrywiaeth fawr o wasanaethau'r Cyngor. Roedd y rhan fwyaf o'r preswylwyr y siaradasom â hwy yn fodlon ar wasanaethau'r Cyngor, er bod nifer fach yn anhapus. Roedd y preswylwyr y siaradasom â hwy hefyd yn teimlo nad oedd ansawdd y rhan fwyaf o wasanaethau'r Cyngor wedi gwella na gwaethygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cymysg yw'r ymwybyddiaeth ymysg y preswylwyr y siaradasom â hwy o gynlluniau'r Cyngor i newid y ffyrdd y caiff gwasanaethau eu darparu.

### Mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n canfod a monitro targedau arbedion

Mae'r Cyngor yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r heriau ariannol anodd y mae'n eu hwynebu. Mae'r Cyngor angen arbed £2 filiwn yn 2013-14, gan gynyddu i £10 miliwn yn 2014-15. Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi cytuno ar ostyngiadau canrannol yn y gyllideb ond ar gyfer 2013-14 mae wedi diwygio'r ffordd y mae'n monitro'r ffordd y cyrhaeddir targedau arbedion a nodir. O'r blaen, roedd y Cyngor yn canolbwyntio ei waith monitro ar berfformiad ariannol o'i gymharu â chyllideb yr adran yn ei chyfanrwydd, ond bellach mae wedi newid i adroddiadau monitro chwarterol i dracio cynnydd o'i gymharu â thargedau arbedion unigol yn benodol. Yn ystod 2013-14, nod y Cyngor yw cryfhau'r trefniadau i fonitro ei gynnydd wrth gyflawni'r arbedion gofynnol.

Wrth baratoi ar gyfer y cynllun ariannol tymor canolig cyflwynodd yr Arweinydd 'araith ar gyflwr y sir' i'r Cyngor llawn, gan ddisgrifio'r cyd-destun y bydd y Cyngor yn gweithredu ynddo yn y dyfodol gyda rhagamcanion y bydd toriadau rhwng 20 y cant a 40 y cant i wasanaethau anstatudol.

### Mae'r trefniadau corfforaethol i gydgysylltu ac adrodd ar berfformiad o'i gymharu â'r dangosyddion strategol cenedlaethol yn drylwyr

Mae angen i bob cyngor fod â gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwneud hyd yn oed yn well. Nod ein dull o adolygu ansawdd data yw newid y pwyslais dros amser o brofi parhaol ar yr holl systemau data a mesurau perfformiad i brofi trefniadau'r Cyngor ei hun i sicrhau ansawdd data, a lle bo'n briodol, dibynnu ar y trefniadau hynny. Trafodasom yr ymagwedd hon gyda'r Cyngor a rhanasom ein methodoleg.

Roedd y mesurau a ddewisasom ar gyfer cam un o’r archwiliad hwn yn ddangosyddion strategol cenedlaethol a ddefnyddir gan y Cyngor i farnu pa mor dda y mae’n cyflawni ei amcanion gwella ac a yw’n gwneud gwahaniaeth i’w ddinasyddion. Canfuom fod gan y Cyngor, at ei gilydd, systemau da ar waith i reoli gwybodaeth perfformiad ac roedd y ddau fesur a aseswyd gennym wedi cael eu cofnodi’n gywir. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru amheuon ynghylch trylwyredd y data a gesglir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru i fesur cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau’n ymwneud â gofal cymdeithasol am bob 1,000 o’r boblogaeth sy’n 75 oed neu’n hŷn (SCA/001), hefyd nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarperir yn ystod y flwyddyn (PLA/006b). Felly mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu amodi’r dangosyddion hyn i gyd ar gyfer 2012-13.

Ar gyfer cam dau o’n gwaith, rydym yn bwriadu gwneud asesiad arall o drefniadau’r Cyngor ar gyfer rheoli ei fesurau perfformiad lleol a byddwn yn adrodd ar ganlyniad y gwaith hwn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## Argymhelliad

Rwyf wedi nodi isod un argymhelliad statudol ar gyfer gwella o dan adran 19 o’r Mesur. Rhaid i’r Cyngor ymateb i’r argymhelliad hwn yn gyhoeddus cyn pen 30 diwrnod.

| **Argymhelliad** | |
|---|---|
| R1 | Sicrhau bod trefniadau ar waith sy’n galluogi’r Cyngor i lunio ei amcanion gwella, craffu arnynt, eu cymeradwyo a’u cyhoeddi’n brydlon i gyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Mesur a’i wneud yn fwy hygyrch i ddinasyddion. |

# Cynigion pellach ar gyfer gwella

Rwyf hefyd yn nodi rhai cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

**Cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad o'r gyllideb wedi'i seilio ar wasanaethau (Mehefin 2013)**

**Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian gwasanaethau**

P1 Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian trwy:

- Ganfod a chytuno ar anghenion statudol ac anstatudol pob gwasanaeth.
- Canfod y 'safonau perfformiad derbyniol' ar gyfer pob gwasanaeth (isaf ac uchaf) a rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhain ymysg dinasyddion.
- Canfod a chasglu data ariannol, perfformiad a galw/angen ar bob un o wasanaethau'r Cyngor, a hynny'n rheolaidd.
- Dadansoddi'r data a gesglir i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y berthynas rhwng cost, perfformiad ac effaith, a deall y berthynas honno.
- Canfod opsiynau ar gyfer gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel gytunedig trwy:
  - gydweithredu a/neu integreiddio gydag eraill i leihau costau a/neu wella ansawdd;
  - gosod gwaith i gyrff allanol lle gellir cyflenwi gwasanaethau'n fwy cost effeithiol yn unol â safonau cytunedig;
  - cyflwyno a/neu gynyddu ffioedd a chanolbwyntio ar weithgarwch cynhyrchu incwm;
  - defnyddio grantiau'n strategol i wrthbwyso costau'r Cyngor; a
  - lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio dim ond ar swyddogaethau craidd sy'n statudol ac sy'n flaenoriaethau corfforaethol.

**Cyrraedd targedau arbedion**

P2 Sicrhau y cyrhaeddir targedau arbedion cymeradwy trwy:

- fynd i'r afael â gwendidau yn y wybodaeth bresennol ar gyfer monitro cyllidebau;
- craffu'n effeithiol ar gynlluniau arbed arian yn barhaus; a
- herio gwasanaethau a'u dal yn atebol am eu perfformiad.

**Cynigion pellach ar gyfer gwella sy'n deillio o'n gwaith Asesu Gwella yn 2013**

**Her ac atebolrwydd**

P3 Egluro rôl aelodau'r Cabinet a sicrhau bod ganddynt y wybodaeth y maent ei hangen i herio swyddogion yn effeithiol a'u dal yn atebol.

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd Tîm yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried, yn ystod y flwyddyn, i ba raddau y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol). Byddaf yn cyflwyno sylwadau ar yr ymagwedd hon yn f'Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith ac yn gobeithio gweld trefniadau hyd yn oed mwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf wedi ymrwymo o hyd i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus ac ar yr un pryd eich cynorthwyo i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihau adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Non Jenkins – Rheolwr

Janet Villars – Arweinydd Archwilio Perfformiad (yn dod i'r swydd)

Nick Selwyn – Arweinydd Archwilio Perfformiad (yn gadael y swydd)